

## Sut i Gael Rhif Yswiriant Gwladol

### Beth yw rhif Yswiriant Gwladol?

Mae Yswiriant Gwladol yn dreth orfodol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n cael ei rheoli gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi a'i didynnu'n awtomatig o gyflog pob gweithiwr, os ydynt yn ennill cyflog sydd uwchlaw'r terfyn enillion isaf (fel y'i pennir gan [Lywodraeth y DU](#)).

### Pwy sy'n talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol?

Rhaid i bawb sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig ac sy'n ennill mwy na'r terfyn enillion isaf dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Nid yw myfyrwyr rhyngwladol wedi'u heithrio. Ni allwch hawlio cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ôl.

### Bydd angen rhif Yswiriant Gwladol arnoch os ydych wedi dechrau neu ar fin dechrau gweithio (mae rhai cyflogwyr angen y rhif Yswiriant Gwladol yn rhan o'r cais am swydd).

Mae [preswylwyr y DU](#) fel arfer yn derbyn eu rhif YG yn awtomatig gan Lywodraeth y DU tua adeg eu pen blwydd yn 16.

### Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol, bydd angen i chi wneud cais am un

#### Gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol

Cyn gwneud cais, os oes gennych trwydded breswyl fiometreg, cofiwch wirio nad oes gennych eisoes rif Yswiriant Gwladol wedi'i argraffu ar gefn eich trwydded breswyl fiometreg. Cofiwch y gallwch ddechrau gweithio cyn ichi gael eich rhif Yswiriant Gwladol os gallwch brofi bod gennych [yr hawl i weithio](#) yn y Deyrnas Unedig.

Gallwch wneud cais ar <https://www.gov.uk/apply-national-insurance-number/how-to-apply> neu ffoniwch y llinell gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol (mae'r galwadau am ddim) rhwng 8am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**0800 141 2075**

Os ydych yn drwm eich clyw, neu os oes gennych anawsterau lleferydd, defnyddiwch y rhif ffôn testun: 0800 141 2438.

Byddwch yn derbyn y ffurflen gais drwy'r post, gyda llythyr yn rhoi manylion. Bydd angen i chi ddychwelyd y ffurflen unwaith y bydd wedi'i chwblhau, gyda phrawf o bwy ydych chi a'ch hawl i weithio neu astudio yn y DU. Bydd y llythyr sy'n dod gyda'r ffurflen gais yn dweud wrthy'ch pa ddogfennau y gallwch eu defnyddio i ddarparu'r prawf hwn.

Ar ôl i'ch cais gael ei gyflwyno a'i brosesu, byddwch yn cael y canlyniad yn ysgrifenedig. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn cadarnhad o'ch rhif YG.

Gall gymryd hyd at **4 wythnos** ichi gael eich rhif Yswiriant Gwladol.

Gallwch [ffonio'r llinell gymorth â cheisiadau](#):

- os oes 4 wythnos a mwy wedi bod ers ichi wneud cais
- os ydych wedi symud tŷ ers ichi wneud cais
- os yw eich manylion personol wedi newid ers ichi wneud cais

Os oes gennych gyfeirnod ar gyfer eich cais, sicrhewch ei fod wrth law pan fyddwch yn ffonio. Gallwch weld y cyfeirnod ar frig yr ebost cadarnhau a gawsoch wedi ichi gyflwyno eich cais.

